# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 20 HYDREF 2021

**Aelodau Cabinet:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw a/ac A.Thomas

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CROESO A GALW'R RHESTR**

   Galwodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd y rhestr enwau ar gyfer presenoldeb.

3. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau.

4. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod ynglŷn â'r Cynnig Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion i Sefydlu Ysgol Cyfrwng Saesneg 3 i 11 oed yn lle ysgolion cynradd yr Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y bydd pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E V Latham | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Gynradd Tywyn ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd C Clement-Williams | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Baglan ond mae ganddi ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd M Harvey | Gan ei fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abbey ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd D Jones | Gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Llangatwg ac Ysgol Gynradd Cilffriw ond mae ganddi ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd L Jones | Gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin ond mae ganddi ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd A R Lockyer | Gan ei fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Gnoll ac mewn Ysgol Gynradd Gymraeg ond mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd P Rees | Gan ei fod yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Crynallt ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd P Richards | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgolion Cynradd Blaenbaglan a Baglan ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio. |

Roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol yn y cyfarfod fel gwahoddedigion ac nid oeddent yn rhan o'r Cabinet felly nid oeddent yn gallu pleidleisio.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Crowley | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Awel y Môr ac Ysgol Gynradd Tywyn. |
| Y Cynghorydd W Griffiths | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan ac Ysgol Gynradd Waunceirch. |
| Y Cynghorydd S K Hunt | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Blaendulais ac YGG Blaendulais. |
| Y Cynghorydd S Knoyle | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn YGG Cwm Nedd. |
| Y Cynghorydd A Llewelyn | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur. |
| Y Cynghorydd S Miller | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Melin ac Ysgol Gynradd y Gnoll. |
| Y Cynghorydd S Penry | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin. |
| Y Cynghorydd R Phillips | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn YGG Pontardawe ac YGG Trebannws. |
| Y Cynghorydd M Protheroe | Gan ei fod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gyfun Cefn Saeson ac Ysgol Gynradd Melin. |
| Y Cynghorydd S Reynolds | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn YGG Gwaun-Cae-Gurwen. |
| Y Cynghorydd R Davies | Gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Godre'r Graig ac Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur. |

5. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION I SEFYDLU YSGOL CYFRWNG SAESNEG 3 I 11 OED YN LLE YSGOLION CYNRADD YR ALLTWEN, GODRE'R GRAIG A LLANGIWG, Y BYDD POB UN OHONYNT YN CAU AR 31 AWST 2024.**

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr holl waith yr oeddent wedi'i wneud wrth ddatblygu'r cynnig hwn gerbron yr Aelodau heddiw.

**Penderfyniadau:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r ymgynghoriad, y gwrthwynebiadau a'r asesiadau effaith mewn perthynas â chydraddoldeb, risg, defnydd cymunedol a'r Gymraeg ynghyd â'r goblygiadau cyfreithiol, ac yng ngoleuni'r holl ddeunydd, yn unol ag adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cymeradwyir sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg, yn weithredol o 1 Medi 2024, gyda Chanolfan Cefnogi Dysgu mewn adeiladau newydd i dderbyn disgyblion o ddalgylchoedd presennol ysgolion cynradd yr Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwg, y byddai pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024.

2. Y dyddiadau gweithredu fydd 31 Awst/1 Medi 2024.

3. Datgenir na fydd angen safleoedd ac adeiladau'r tair ysgol wag mwyach o ran gofynion gweithredol y Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol sy'n darparu ar gyfer gweithredu'r cynnig. Bydd hefyd yn galluogi'r cyngor i hyrwyddo safonau uchel a chyflawni potensial pob plentyn a chyflawni'i ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**